

9 Rhagfyr 2021

Annwyl Gyfaill,

Ymgynghoriad - Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd

Mae Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn cynnal ymchwiliad byr i dlodi tanwydd a Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar adolygu'r cynllun Arbed sydd wedi dod i ben, cyn i'r rhaglen newydd ddod i rym yn 2023.

Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo yn ei drafodaethau ar yr ymchwiliad. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, byddai'n ddefnyddiol cael eich sylwadau yn ymateb i'r cylch gorchwyl isod:

- Beth yw'r prif wersi a ddysgwyd o Raglen Cartrefi Clyd bresennol Llywodraeth Cymru?
- Sut y gall y gwersi hyn helpu i lywio'r fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi gwell cefnogaeth i'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu mewn perygl o hynny? Yn benodol:
 - beth ddylai'r meini prawf cymhwysedd fod ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref,
 - a ddylai'r dull sy'n seiliedig ar ardal, o fynd i'r afael â thlodi tanwydd (Arbed), barhau,
 - pa gymorth penodol y dylid ei ddarparu i ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â thlodi tanwydd gwledig?
 - sut y gellir annog landlordiaid y sector preifat i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith tenantiaid?
 - sut y gall unrhyw gynllun(iau) olynol wella ar yr ystyriaethau cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol?
- Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cyd-fynd yn well â'i hymdrechion i ddatgarboneiddio tai Cymru?

Dylai unrhyw gyflwyniadau gyrraedd erbyn **20 Ionawr 2022**.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni at:
SeneddEquality@Senedd.Wales

Canllawiau

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y [canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau](#).

Polisi dwyieithrwydd

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy. Os na chyflwynir gwybodaeth yn ddwyieithog, ni fydd yn cael ei chyfieithu, a chaiff ei chyhoeddi yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno ynddi yn unig. Disgwylwn i sefydliadau weithredu eu safonau a'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Fel rheol byddwn yn cyhoeddi gohebiaeth neu dystiolaeth ysgrifenedig ar ein gwefan. Os ydych wedi ymateb yn bersonol, bydd eich enw'n cael ei gyhoeddi ynghyd â'ch cyfraniad, oni bai eich bod wedi gofyn i'ch cyfraniad fod yn ddiennw. Os ydych wedi ymateb yn eich rôl broffesiynol, bydd y fersiwn o'ch ymateb a gyhoeddir yn cynnwys eich enw, teitl eich swydd/rôl os yw'n berthnasol, ac enw'ch sefydliad.

Manylion cyswllt

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:

Clerc y Pwyllgor

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol


Senedd Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1SN

E-bost: SeneddEquality@senedd.wales

Ffôn: 0300 200 6565

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.